

Cylchgrawn 'Cristion'

Cylchgrawn a gyhoeddir pob deufis yw Cristion. Caiff ei gyhoeddi gan bwyllgor eciwmenaidd sy'n cynnwys yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, yr Eglwys Bresbyteraidd, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ac fe welir hyn drwy'r amrywiaeth yn y cynnwys a'r cyfranwyr.

Golygyddion

Yn gynharach eleni, daeth gwahoddiad i'r tri ohonom, sy'n ffrindiau agos iawn ac sy'n cydweithio'n dda â'n gilydd, i ymgymryd â'r gwaith. I'r rhai ohonoch sydd ddim yn ein hadnabod...

- Gweinidog ydi Dylan, ac yn dilyn cyfnod o 7 mlynedd yng Ngofalaeth Bro'r Creuddyn, mae ar fin cychwyn Gweinidogaethu yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porthcawl.
- Mae Carwyn hefyd yn Weinidog yng Ngofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch ers 2012, ac yn ŵr i Nerys.
- Mae Nerys, yn dilyn cyfnod fel athrawes Addysg Grefyddol Uwchradd, bellach yn gweithio i Gymdeithas y Beibl ers 2014, ac yn Rheolwraig a Swyddog Addysg yng Nghanolfan Byd Mary Jones.



Cynnwys

Ein gobaith yw ceisio darparu cylchgrawn o safon, gan sicrhau ystod eang o erthyglau a chyfraniadau. Bydd yr arlwy yn cynnwys Munud i Feddwl, Adolygiadau, Pererindodau amrywiol yng Nghymru, Cerddi gan ystod eang o feirdd, erthyglau diwinyddol, a hefyd tudalen a chystadleuaeth i'r plant a chroesair i'r oedolion. Gydag un erthygl, sef Gair o'r Galon, gwahoddir unigolion gwahanol i rannu eu profiadau a'u taith ffydd â ni, ac i gydfynd â'r erthygl, bydd recordiad fideo o gyfweiliad â'r unigolion yn ymddangos ar ein gwefan.

Gwahoddiad i'r lansiad

Oherwydd yr amgylchiadau presennol, bydd lansiad ein rhifyn cyntaf drwy gyfrwng 'Zoom' ar nos Wener, Mehefin 18fed, 2021 am 8yh o'r gloch. Bydd yn gyfle i ni gyflwyno ein hunain, rhannu ychydig o gynnwys ein rhifyn cyntaf, cyflwyno rhai o'n colofnwyr rheolaidd, ac i ddangos y wefan ar ei newydd wedd.

Tanysgrifio

Os hoffech dderbyn copi o Cristion, gallwch unai gysylltu â'ch siop lyfrau leol, tanysgrifio'n unigol, neu danysgrifio fel Eglwys neu Ofalaeth am bris gostyngol. Mae'r ffurflen danysgrifio wedi ei hatodi.

Os am unrhyw wybodaeth bellach, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni, a mawr obeithiwn y byddwch yn cael blas ac yn profi bendith drwy'r hyn a ddarperir yn Cristion.

Cofion cynnes
Dylan, Carwyn a Nerys



Cylchgrawn
CRISTION